# Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (HEOL PONTARDDULAIS, TŶ-CROES, RHYDAMAN, SIR GAERFYRDDIN) (DILEU CYFYNGIAD

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 82(2), 83(1), 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd dileu, i'r terfyn cyflymder cenedlaethol, y cyfyngiad ar y darn hwnnw o gefnffordd Abertawe-Manceinion (yr A483) ger Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn a gosod terfyn cyflymder 40 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Yn ystod y 21 o ddiwrnodau o 12 Mawrth 2014 ymlaen, gellir archwilio copi o'r Gorchymyn drafft a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu, ynghyd â phlan cysylltiedig a Datganiad o'r Rhesymau ar gyfer gwneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Rhydaman, 3, Wind Street, Canol y Dref, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, SA18 3DN.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i Lywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 2 Ebrill 2014. Noder os gwelwch yn dda: os ydych am wrthwynebu, cefnogi neu gynnig sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a chyrff y tu allan i Lywodraeth Cymru. Yn rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill efallai y byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ddelio â'r materion yr ydych wedi tynnu ein sylw atynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Statudol Lleol Drafft', 'Gorchmynion Traffig Parhaol').

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

### YR ATODLEN
### ATODLEN 1

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 119 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4297 ger Cyffordd Llanedi at bwynt 1044 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Ddu.

### ATODLEN 2

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1044 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Ddu at bwynt 78 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Ddu gan gynnwys y ffordd ymadael ger ei chyffordd â'r B4297 tua'r gogledd i Gapel Hendre.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## THE A483 TRUNK ROAD (PONTARDULAIS ROAD, TY-CROES, AMMANFORD, CARMARTHENSHIRE) (DE-RESTRICTION AND 40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make an Order under sections 82(2), 83(1), 84(1) and (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to de-restrict to the national speed limit the length of the A483 Swansea - Manchester Trunk Road at Pontardulais Road, Ty-Croes, Ammanford in the County of Carmarthenshire specified in the Schedule 1 to this Notice and impose a 40 mph speed limit in the length specified in Schedule 2.

During a period of 21 days from 12 March 2014, a copy of the proposed Order and the Order being revoked together with an associated plan and a Statement of Reasons for the making of the Order may be inspected free of charge, during normal office hours at Ammanford Library, 3, Wind Street, Town Centre, Ammanford, Carmarthenshire, SA18 3DN.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 2 April 2014. Please note: Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.wales.gov.uk (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Draft Legislation', 'Draft Local Statutory Instruments', 'Permanent Traffic Orders').

**M D BURNELL**
Transport, Welsh Government

### SCHEDULES
### SCHEDULE 1

The length of the trunk road that extends from a point 119 metres south-west of the centre-point of its junction with the B4297 at Llanedi Junction to a point 1044 metres south-west of the centre-point of its junction with Heol Ddu.

### SCHEDULE 2

The length of the trunk road that extends from a point 1044 metres south-west of the centre-point its junction with Heol Ddu to a point 78 metres north-east of the centre-point of its junction with Heol Ddu including the off slip road at its junction with the northbound B4297 to Capel Hendre.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE